Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

AHVLA
Asiantaeth
Iechyd Anifeiliaid a
Labordai Milfeddygol

Gorchymyn Twbercwlosis (Lloegr) 2007 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis (yr Alban) 2007 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfyngiadau Awtomatig ar Anifeiliaid ac Iechyd y Cyhoedd yn dilyn Datgelu Adweithydd neu Adweithydd Amhendant mewn Prawf Diagnostig Swyddogol ar gyfer Twbercwlosis mewn Gwartheg, Byfflos neu Fuail

Mae eich buches bellach o dan gyfyngiad ac wedi colli ei statws Rhydd Rhag Twbercwlosis yn Swyddogol (OTF)

Rydych yn cael y nodyn gwybodaeth hwn oherwydd bod y prawf Twbercwlosis (TB) a gynhaliwyd ar y fuches a nodir isod wedi datgelu un neu fwy o adweithyddion neu adweithyddion amhendant. Yn unol â'r Gorchymyn TB perthnasol, mae'r gofynion cyfreithiol canlynol bellach yn berthnasol i'r ceidwad:

- rhaid i chi gyfyngu ar symudiad anifeiliaid buchol i'r graddau na chânt eu symud ar y safle nac oddi arno lle y cedwir yr adweithydd neu'r adweithydd amhendant heb drwydded a gyflwynwyd gan Arolygydd
- rhaid i bob adweithydd gael ei farcio, a rhaid i bob adweithydd ac adweithydd amhendant gael eu hynysu rhag yr anifeiliaid buchol sydd wedi cael prawf negyddol ac anifeiliaid eraill
- ni chaiff llaeth gan adweithyddion TB eu rhoi mewn swmpdanc na'i ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i'w yfed gan bobl,
- lle y mae'r adweithydd yn byw ar y safle gyda buches odro, rhaid i chi hysbysu unrhyw un sy'n prynu eich llaeth yn fasnachol o'r ffaith bod y fuches wedi colli statws OTF.

Mae methiant i gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn neu ddilyn y gofynion hyn yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981

Mae'n rhaid i unrhyw un o weithwyr y fferm neu asiant â'r awdurdod i weithredu ar ran y ceidwad, hysbysu'r ceidwad cofrestredig cyn gynted â phosibl o fethiant y prawf a rhoi'r nodyn gwybodaeth hwn i'r ceidwad, a dylid ei gadw am hyd y cyfyngiadau TB.

Beth fydd yn Digwydd Nesaf

Bydd Swyddog Milfeddygol o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) yn cysylltu â chi ac yn cynnal ymchwiliad clefyd. Bydd yn rhoi cyngor ac yn trafod â chi sut y caiff yr achos hwn o TB ei reoli a pha gamau pellach y bydd angen eu cymryd o bosibl.

Enw'r Milfeddyg Cymeradwy/Profwr Lleyg/Arolygydd Milfeddygol AHVLA		Dyddiad	
Enw'r Derbynnydd (y ceidwad neu'r person â'r awdurdod i weithredu ar ran y ceidwad)			
Enw'r Ceidwad Cofrestredig		CPHH	
Cyfeiriad:			

Camau y mae'n Rhaid i Chi eu Cymryd Nawr

Symudiadau
Rhaid i unrhyw drefniadau symud gwartheg sy'n digwydd i mewn ac allan o'r fuches o dan gyfyngiad gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol ar reoli clefyd, symud da byw ac adnabod da byw a rhaid eu hategu â thrwydded a gyflwynir gan AHVLA. Nid yw'r gwaharddiad ar symud yn berthnasol i anifeiliaid buchol a symudir i fan lladd neu ar gyfer triniaeth filfeddygol mewn argyfwng er mwyn atal poen diangen i'r anifail hwnnw. Mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi manylion llawn i Arolygydd AHVLA cyn gynted â phosibl. Bydd AHVLA fel arfer yn trefnu i wartheg adweithyddion TB gael eu symud a'u lladd. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis trefnu i'ch anifeiliaid gael eu symud a'u lladd yn breifat, mae'n rhaid i chi hysbysu AHVLA yn gyntaf a cheisio'r trwyddedau symud a'r ffurflenni angenrheidiol i wneud hynny. Yn yr achos hwn, ni thelir iawndal gan y llywodraeth, a bydd y lladd-dy yn talu unrhyw dâl am achub yn uniongyrchol i chi.

Ynysu
Gallai adweithyddion ac adweithyddion amhendant beri risg o haint i weddill eich buches ac unrhyw fuchesi cyfagos a rhaid iddynt gael eu hynysu ar unwaith rhag anifeiliaid eraill nes iddynt gael eu symud i gael eu lladd neu gael prawf arall (fel y bo'n briodol). Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i addasrwydd y cyfleusterau a ddefnyddir ar gyfer ynysu, a ddylai roi'r holl ddiogelwch posibl rhag risgiau halogi neu haint.

Llaeth gan Adweithyddion TB
Ni ddylai llaeth gan anifeiliaid sy'n adweithyddion TB gael ei yfed gan bobl. Nid argymhellir y dylech fwydo llaeth gan adweithyddion neu adweithyddion amhendant i loi neu dda byw eraill, oni bai ei fod wedi'i ferwi a'i basteureiddio ymlaen llaw. Hyd nes y caiff eich statws OTF ei adfer ar gyfer eich buches, dim ond os yw wedi ei drin â gwres cyn ei roi ar y farchnad y caiff llaeth gan adweithyddion amhendant a gwartheg sydd wedi cael prawf negyddol yn eich buches ei yfed gan bobl. Gellir casglu llaeth o adweithyddion TB yn y system biswail, ond mae'n rhaid i unrhyw waith taenu ar y tir a wneir wedyn fod yn unol ag Eithriad Trwydded Rheoli Gwastraff cofrestredig. I gofrestru cysylltwch naill ai ag:

- Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr (neu defnyddiwch Ddull Fferm Gyfan Defra yn Lloegr yn unig)
- Cyfoeth Naturiol Cymru, neu
- Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn yr Alban

Diogelu Eich Teulu
Er mwyn diogelu eich iechyd eich hun ac iechyd eich teulu, argymhellir yn gryf na ddylech yfed llaeth gan eich buches heb ei basteureiddio, ac yn bendant nid nes bod y cyfyngiadau symud wedi'u codi gan AHVLA.

Glanhau a Diheintio
Mae hwn yn fesur rheoli clefyd pwysig. O dan rai amodau gall bacteria TB oroesi yn yr amgylchedd am amser hir, felly mae'n hanfodol glanhau a diheintio pob adeilad, ffitiad a chyfarpar lle y mae gwartheg adweithiol wedi'u cadw yn drylwyr. Maes o law, bydd AHVLA yn cyflwyno hysbysiad (BT05) i'r ceidwad mewn achosion lle y mae adweithyddion wedi'u canfod, gan nodi'r gofynion o ran glanhau a diheintio. Rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir ar gyfer glanhau a diheintio sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad fod yn un sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar gyfer TB buchol a rhaid ei ddefnyddio yn y crynodiad a argymhellir. Ceir rhestr o'r diheintyddion a gymeradwywyd ar wefan Defra.

Bioddiogelwch
Symud da byw sydd wedi'u heintio o un fferm i'r llall yw'r ffordd fwyaf tebygol o ledaenu clefydau anifeiliaid. Mae bioddiogelwch effeithiol ac arferion magu anifeiliaid da yn fesurau pwysig wrth leihau'r risg o haint TB yn eich buches. Dylai storfeydd bwyd a mannau bwydo gael eu diogelu rhag halogiad posibl gan anifeiliaid sydd wedi'u heintio ac anifeiliaid bywyd gwyllt sy'n cario TB fel moch daear neu geirw. Sicrhewch fod ffensys perimedr, gan gynnwys mynedfeydd, yn ddigonol er mwyn atal cyswllt trwyn wrth drwyn ag anifeiliaid eraill a'u baw, eu poer neu eu hwrin. Gall dillad, esgidiau, cyfarpar a cherbydau halogedig gludo clefyd o un fferm i'r llall felly gwnewch yn siŵr bod gennych arferion glanhau a diheintio effeithiol ar waith a'ch bod chi a'ch ymwelwyr yn eu defnyddio.

Bydd eich milfeddyg yn gallu eich helpu ymhellach drwy roi gwybodaeth ac argymhellion sy'n benodol i'ch anghenion. Mae cyfres o gyhoeddiadau sy'n cynnwys cyngor a chanllawiau pellach, gan gynnwys y daflen 'Delio â TB yn eich buches' ar gael ar-lein drwy wefan AHVLA gydag amrywiadau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

Ffynonellau o Wybodaeth Bellach
Gellir cael gwybodaeth bellach ar y gwefannau canlynol:

- GOV.UK
- Defra
- Llywodraeth yr Alban
- Llywodraeth Cymru.

Mae Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol yn asiantaeth weithredol o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gweithio ar draws Prydain Fawr ar ran Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru